**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P Downing | M B Lewis |
| D G Sullivan | W G Thomas | |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
P Rees

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| W Marshall | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

---

## 28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorwyr J P Curtice, M B Lewis, C E Lloyd a W G Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd P Rees - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd D G Sullivan - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy merch-yng-nghyfraith yn gweithio i'r awdurdod ac rydw i'n derbyn pensiwn a weinyddir gan Raglen Pensiwn Cyngor Sir Dyfed - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb, J Dong, A Lowe ac S Williams – yr agenda yn ei chyfanrwydd – aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

## 29 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 13 Medi 2018 fel cofnod cywir.

## 30 Gweinyddu Disgresiynau'r Awdurdod.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad mewn perthynas â'r disgresiwn sydd ar gael i Awdurdod Gweinyddu Dinas a Sir Abertawe dan reoliadau perthnasol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Oherwydd amserlenni, cyflwynwyd yr adroddiad "er gwybodaeth" yn unig gan nad oedd y cadarnhad perthnasol wedi cael ei roi. Byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno yn ystod un o gyfarfodydd y dyfodol.

## 31 Adroddiad Adolygu Dulliau Rheoli Mewnol.

Darparodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad "er gwybodaeth" i roi gwybod i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am eitemau adroddadwy a nodwyd yn adroddiadau rheolaethau mewnol rheolwyr penodedig y gronfa.

Roedd crynodeb o'r eithriadau ar gyfer y flwyddyn galendr ddiwethaf wedi'i atodi yn Atodiad 1 ar gyfer rheolwyr a cheidwad penodedig cronfa Dinas a Sir Abertawe.

## 32 Adroddiad am Doriadau.

Darparodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn cyflwyno unrhyw doriadau a gafwyd yn ystod y cyfnod yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion am y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Medi 2018. Amlygwyd manylion y toriadau hynny a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y rheolwyr.

## 33 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

### 34 Y Diweddaraf am Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Darparodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn amlinellu cynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru o ran cyfuno asedau.

Wedi'i atodi yn Atodiad 1 oedd yr adroddiad cynnydd a diweddaru a ddarparwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru i'r Gweinidog dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, ym mis Hydref 2018.

### 35 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cynnwys Y Diweddaraf am Ddiogelu Ecwiti.

Cyflwynodd William Marshall, Ymgynghorydd Buddsoddi, ddiweddariad chwarterol ymgynghorydd buddsoddi penodedig y gronfa am fuddsoddiad a'r farchnad, gan gynnwys papur diweddaru am y rhaglen diogelu ecwiti.

Yn dilyn hyn, rhoddodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro y diweddaraf i'r pwyllgor am ddiogelu ecwiti. Bydd y Panel Gwerthuso'n cwrdd ar 3 Rhagfyr 2018 a bydd angen i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn gymeradwyo'r penodiad yn y dyfodol.

Wedi'i atodi yn Atodiad 1 oedd adroddiad chwarterol Hymans Robertson, gan gynnwys papur cynnydd mewn perthynas â rhoi diogelwch ecwiti ar waith a sut gellir ei ddefnyddio’n effeithlon at ddibenion diogelu rhag gostyngiadau wrth i'r gronfa roi ei strategaeth buddsoddi tymor hir gymeradwy ar waith.

Gofynnwyd cwestiynau amrywiol gan y pwyllgor, ac atebwyd y cwestiynau'n briodol. Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi am yr wybodaeth diweddaraf.

### 36 Adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol.

Roedd yr adroddiad 'er gwybodaeth' yn cyflwyno diweddariad economaidd a sylwadau ar y farchnad o safbwynt Mr Noel Mills, yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol Penodedig.

Atodwyd yr adroddiad chwarterol, a oedd yn dod i ben ar 30 Medi 2018, yn Atodiad A.

Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y pwyllgor a gofynnwyd cwestiynau amrywiol, ac ymatebwyd iddynt yn briodol. Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol Penodedig am ei adroddiad.

## 37 Crynodeb o Fuddsoddiadau.

Darparodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2018.

Atodwyd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi yn Atodiad 1.

**Penderfynwyd nodi'r** adroddiad.

## 38 Cyflwyniad(au) Rheolwr y Gronfa:

Incwm Sefydlog - Goldman Sachs Asset Management.

Gwnaed cyflwyniad gan David Thomas ac Ian Lindsay o Goldman Sachs Asset Management.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad ac ymatebwyd iddynt yn briodol.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i reolwr y gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.02 pm

**Cadeirydd**